## Cynllun Datblygu Lleol

## Sir Gaerfyrddin

# Adolygiad

# Tir Cyflogaeth

# 2023

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire
County Council

# Cynnwys

1 Cefndir ........ 3

2 Cyflwyniad ........ 4

3 Methodoleg yr Astudiaeth ........ 5

4 Y canlyniadau ........ 7

4.1 Safleoedd cyflogaeth presennol ........ 7

4.2 Safleoedd Cyflogaeth Arfaethedig - CDLl presennol ........ 9

4.3 Safleoedd Cyflogaeth Arfaethedig - Cynllun Datblygu Lleol Adneuo Diwygiedig ........ 10

4.4 Newidiadau mewn safleoedd cyflogaeth presennol - CDLl presennol ........ 10

4.5 Newidiadau mewn safleoedd cyflogaeth presennol - Cynllun Datblygu Lleol Adneuo Diwygiedig ........ 11

4.6 Cymhariaeth rhwng y ffigurau diweddaraf a'r rheiny o Adolygiad Tir Cyflogaeth 2022 ........ 11

4.7 Caniatâd cynllunio at ddibenion cyflogaeth ar safleoedd eraill ........ 13

4.8 Canlyniadau yn seiliedig ar ardal ........ 13

5 Materion Parhaus ac Argymhellion ........ 14

5.1 Y Gallu i Gyflawni ........ 14

5.2 Yr Astudiaeth Anghenion Cyflogaeth Sectorol ........ 15

5.3 Y CDLl Diwygiedig ........ 16

5.4 Astudiaethau economaidd mwy na lleol - Astudiaeth Economaidd y Ddwy Sir ar gyfer Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin ........ 16

5.5 Darnau eraill o dystiolaeth ........ 18

6 Casgliadau ........ 19

Atodiad 1 Maint a chyfraddau defnydd yr holl safleoedd cyflogaeth presennol ac arfaethedig ........ 21

Atodiad 2 Cymhariaeth rhwng safleoedd cyflogaeth presennol yn 2022 a 2023 ........ 27

# 1 CEFNDIR

Mae'r system gynllunio yn ganolog i sicrhau twf economaidd parhaus ac i ddarparu swyddi a buddsoddi mewn modd sy'n amgylcheddol gynaliadwy. Mae twf economaidd yn cynhyrchu cyfoeth ac yn codi safonau byw a chaiff ei yrru gan gynnydd mewn cyflogaeth a chynhyrchiant sydd yn ei dro yn cael ei bennu gan lefelau uwch o fuddsoddiad, arloesedd, cystadleuaeth, sgiliau a menter. Yn hyn o beth mae'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) yn cynrychioli elfen ganolog wrth sefydlu a phennu'r cyfleoedd ar gyfer twf a'r fframwaith i arwain a hwyluso'r buddsoddiad.

O safbwynt Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) mabwysiedig Sir Gaerfyrddin, a'r Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig datblygol, mae'r rôl sydd gan gyflogaeth a'r economi yn y modd y maent yn cefnogi'r Cynllun a'i Strategaeth yn ystyriaeth ganolog. Yn hyn o beth, mae angen sicrhau bod digon o dir addas ac ymarferol at ddibenion cyflogaeth yn cael ei ddynodi yn unol â'r egwyddorion cynaliadwyedd a Strategaeth Ofodol y Cynllun.

O ran darparu'r dystiolaeth economaidd ddiweddaraf (gan gynnwys llunio adolygiadau tir cyflogaeth i gefnogi'r CDLl, mae Paragraff 5.4.7 o Bolisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 11) yn nodi:

> Dylai cynlluniau datblygu a phenderfyniadau rheoli datblygu fod yn seiliedig ar dystiolaeth gyfoes leol ac is-ranbarthol. Mae'n bwysig bod tystiolaeth o'r fath yn dangos addasrwydd y cyflenwad presennol o dir cyflogaeth, ynghyd â darpariaeth i'r dyfodol, mewn perthynas â gofynion lleoliadol a datblygiadol y busnes.

Sir Gaerfyrddin yw'r sir fwyaf ond dwy yng Nghymru, o safbwynt daearyddol, a hi sydd â'r nifer uchaf o aneddiadau. Gyda'i chefnwlad wledig amrywiol sy'n cyferbynnu â'r ardaloedd ôl-ddiwydiannol yn y de-ddwyrain, gorchwyl y CDLl wrth ddarparu ar gyfer cyflogaeth yw diwallu'r amrywiaeth gymhleth hon.

Wrth sicrhau bod y CDLl mabwysiedig presennol yn parhau i fod yn gyfredol, cafodd ei gynnwys ei adolygu a chyhoeddwyd y canlyniadau yn yr Adroddiad Adolygu (Chwefror 2018). Nododd yr Adroddiad, er bod sawl agwedd ar y CDLl mabwysiedig yn gweithredu'n effeithiol, bod yna hefyd faterion yn ymwneud â rhannau o'r Cynllun a'i strategaeth. Dangosodd yr Adroddiad Adolygu nad oedd rhannau o'r strategaeth hon yn cael eu cyflwyno yn ôl y disgwyl a bod angen ystyried lefel a dosbarthiad gofodol twf ymhellach. Daeth i'r casgliad y dylid dechrau paratoi CDLl diwygiedig yn lle'r Cynllun mabwysiedig presennol.

Roedd y Wlad yn adfer yn dilyn dirywiad economaidd cyn dyfodiad y pandemig Covid-19 ym mis Mawrth 2020. Archwiliwyd braslun o oblygiadau economaidd y pandemig, yn ogystal â goblygiadau Brexit, yn Astudiaeth Economaidd y Ddwy Sir ar gyfer Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin (diweddariad 2020/21) a chânt eu crynhoi yn Adran 5.4 isod.

## 2 CYFLWYNIAD

Bydd tystiolaeth o'r seithfed Adolygiad Tir Cyflogaeth blynyddol hwn yn cael ei defnyddio i ddarparu tystiolaeth i ategu Adroddiadau Monitro Blynyddol y CDLl, a bydd yn cyfrannu at baratoi'r CDLl Diwygiedig. Oherwydd natur yr amserlen a bennwyd ar gyfer paratoi'r CDLl Diwygiedig (fel y nodir yn y Cytundeb Cyflawni Diwygiedig), fel gyda'r ddau Adolygiad Tir Cyflogaeth blaenorol (2020 a 2022) roedd yr Adolygiad Tir Cyflogaeth hwn yn defnyddio'r gwaith adolygu helaeth a wnaed fel rhan o'r Cynllun Diwygiedig Adneuo [Cyntaf], a hefyd gwaith pellach fel rhan o'r Ail Gynllun Adneuo Diwygiedig O ganlyniad, lle bo'n briodol, mae'r ffigurau a nodir yn yr Adolygiad Tir Cyflogaeth hwn yn adlewyrchu'r rhai a nodir yn yr Ail Gynllun Adneuo, ac ar yr un pryd yn ymdrin â monitro'r CDLl mabwysiedig cyfredol.

Mae'r Adolygiad Tir Cyflogaeth hwn yn defnyddio'r wybodaeth a gafwyd gan ein partneriaid corfforaethol ym meysydd Datblygu Economaidd ac Eiddo Corfforaethol, lle bo'n briodol, yn unol â'r Canllawiau Ymarfer - Adeiladu Sylfaen Dystiolaeth Datblygu Economaidd i Ategu Cynllun Datblygu Lleol (Llywodraeth Cymru, 2015).

Mae gan y Cyngor gyfrifoldeb statudol i sicrhau bod digon o dir cyflogaeth ar gael i ddiwallu'r angen a nodwyd. Mae hyn yn unol â gofynion yr argraffiad cyfredol o Bolisi Cynllunio Cymru a Nodyn Cyngor Technegol 23 *Datblygu Economaidd.* Dywed paragraff 5.4.3 o Bolisi Cynllunio Cymru (Polisi Cynllunio Cymru, Argraffiad 11):

> Dylai awdurdodau cynllunio roi eu cefnogaeth i ddarparu digon o dir i gwrdd ag anghenion y farchnad gyflogaeth ar lefel strategol a lleol. Dylai cynlluniau datblygu nodi'r gofyn am dir cyflogaeth, dyrannu cymysgedd priodol o safleoedd i ateb y galw a llunio fframwaith ar gyfer diogelu safleoedd cyflogaeth o bwys strategol a lleol.

Mae sicrhau bod cyflenwad digonol o dir cyflogaeth mewn amrywiaeth o aneddiadau ledled y Sir yn helpu i roi sicrwydd a hyder, er enghraifft drwy ddenu buddsoddiad i'r ardaloedd trefol mwy, a thrwy ddarparu cyfleoedd busnes mwy lleol yn yr ardaloedd mwy gwledig, yn ogystal â helpu i gynnal bywiogrwydd a hyfywedd yr ystod ac amrywiaeth o gymunedau yn y Sir.

# 3 METHODOLEG YR ASTUDIAETH

Ar gyfer pob blwyddyn arolwg, y sefyllfa a nodir yw 1 Ebrill yn y flwyddyn honno. Y llinell sylfaen ar gyfer yr arolwg hwn yw 1 Ebrill 2022 i 31 Mawrth 2023. Mae arolygon safle yn cael eu cynnal tua diwedd y cyfnod hwn er mwyn sicrhau'r wybodaeth ddiweddaraf. Mae caniatâd cynllunio ar gyfer y cyfnod cyfan yn cael eu casglu a'u defnyddio yn y diweddariad.

Dylid nodi, oherwydd cyfyngiadau Covid-19, nad oedd yn bosibl cynnal yr arolygon safle angenrheidiol ar gyfer y cyfnod 2020-21 ac o ganlyniad ni chafwyd adolygiad ar gyfer y flwyddyn honno. Fodd bynnag, mae'r achosion o ganiatâd cynllunio ar gyfer y cyfnod 2020-21 wedi eu cofnodi a'u nodi yn Atodiad 1, ynghyd â'r rheiny ar gyfer y ddau gyfnod monitro dilynol.

Ymhellach, oherwydd y tarfu a achoswyd gan y pandemig Covid-19 [ac yna cyhoeddi canllawiau ym mis Ionawr 2021 ynghylch lefelau ffosffad mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig afonol], mae oedi sylweddol mewn amser wedi arwain at lunio'r CDLl Diwygiedig. Cyhoeddwyd y CDLl Diwygiedig Adneuo yn wreiddiol ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus yn 2020; fodd bynnag, oherwydd y ffactorau a grybwyllwyd uchod mae wedi bod yn angenrheidiol i ddechrau paratoi Ail CDLl Adneuo (a gyhoeddwyd i ymgynghori yn ei gylch rhwng 17 Chwefror a 14 Ebrill 2023).

Mae angen gwahaniaethu rhwng safleoedd cyflogaeth a glustnodwyd fel <u>dyraniadau CDLl (safleoedd arfaethedig)</u> a'r rheiny sydd wedi'u hanodi fel <u>safleoedd cyflogaeth presennol</u> o fewn y CDLl. Mae'r wybodaeth ar gyfer y dyraniadau yn y Cynllun Mabwysiedig presennol i'w gweld bob blwyddyn yn yr Adroddiadau Monitro Blynyddol, ac felly wedi'i nodi isod at ddibenion cyflogaeth. Mae data sydd wedi'i gynnwys yn yr Adolygiadau Tir Cyflogaeth blynyddol yn wahanol i'r Adroddiadau Monitro Blynyddol, yn yr ystyr ei fod yn defnyddio'r data arolwg diweddaraf ar gyfer safleoedd (a gynhaliwyd ar ddechrau 2023). Yn ogystal, at ddibenion yr Adolygiad Tir Cyflogaeth hwn, mae gwybodaeth am y safleoedd a nodir yn yr Ail Gynllun Adneuo wedi'i defnyddio gan fod hyn yn cynrychioli'r wybodaeth ddiweddaraf ar y pryd ac mae ei hangen fel tystiolaeth i gefnogi'r Cynllun Diwygiedig.

Nid yw gwybodaeth am y safleoedd presennol wedi'i chynnwys yn Adroddiadau Monitro Blynyddol y CDLl gan nad yw'r rhain yn rhan o'r portffolio cyflogaeth arfaethedig (dyraniadau) dros gyfnod y Cynllun. Serch hynny mae'r safleoedd presennol yn ffurfio rhan hanfodol o'r ddarpariaeth gyflogaeth gyffredinol yn y Sir, ac felly cânt sylw manwl yn yr Adolygiad Tir Cyflogaeth blynyddol.

At ddibenion yr Adolygiad hwn, cymerir bod mathau o ddefnydd tir cyflogaeth yn cynnwys y rheiny sydd yn Nosbarthiadau Defnydd B1, B2 a B8, fel y'u nodir yng Ngorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Dosbarthiadau Defnydd) (Cymru) 1987 (fel y'i diwygiwyd). Fodd bynnag, cydnabyddir bod dosbarthiadau defnydd eraill yn cwmpasu gweithgareddau sy'n gysylltiedig â chyflogaeth ac yn aml maent yn perthyn yn agos iawn i fathau o ddefnydd Dosbarth B, megis A2 (swyddfeydd) a defnydd sui generis. Bydd y rhain yn cael eu nodi yn yr adrannau canlynol.

Mae'r Adolygiad hwn yn cwmpasu:

- Holl ddyraniadau cyflogaeth y CDLl, (a dyraniadau defnydd cymysg lle clustnodwyd defnydd cyflogaeth ar ran o'r dyraniad) – yn y Cynlluniau Adneuo Diwygiedig mabwysiedig a'r Ail Un
- Pob safle cyflogaeth presennol a anodir ar Fapiau Cynigion yr Ail GDLl Adneuo Diwygiedig
- Hap-safleoedd cyflogaeth a ganiatawyd ers mabwysiadu'r CDLl - safleoedd â chaniatâd cynllunio ar gyfer defnydd cyflogaeth nad ydynt wedi'u lleoli o fewn y ddau gategori uchod

Cafodd cyfanswm o 104 o safleoedd (gan gynnwys dyraniadau'r CDLl a safleoedd presennol) eu harolygu ar gyfer Adolygiad 2022. Mae'r wybodaeth a gasglwyd ar gyfer pob un o'r safleoedd presennol fel a ganlyn:

- Cyfanswm arwynebedd y safle (Ha)
- Cyfanswm arwynebedd yr adeiladau/clostiroedd (Dosbarth Defnydd B) (Ha)
- Cyfran y gweithrediadau Dosbarth Defnydd B (%)
- Adeiladau a chlostiroedd a ddefnyddir at ddibenion eraill (Ha)
- Adeiladau nad ydynt yn cael eu defnyddio (gwag) (Ha)
- Tir o fewn cyfanswm arwynebedd y safle a ddefnyddir ar gyfer seilwaith a thirweddu neu sy'n debygol o fod yn anodd i'w ddatblygu (Ha) e.e. ardaloedd ar gyfer ffyrdd a pharcio, ardaloedd wedi'u tirweddu a thir sy'n annhebygol o fod yn agored i'w ddatblygu (e.e. tir serth neu ar lethr)
- Caiff cyfeirnodau'r ceisiadau am ganiatâd cynllunio, gan gynnwys rhai sydd at ddibenion cyflogaeth a rhai nad ydynt at ddibenion cyflogaeth, eu cofnodi ym mhob safle ar gyfer dyraniadau a safleoedd presennol fel ei gilydd.

Mewn perthynas â dyraniadau CDLl, nodir y maint cyfan, ynghyd â maint yr ardal a hawlir trwy'r datblygiad a/neu ganiatâd cynllunio.

Caiff y canlyniadau ar gyfer safleoedd presennol a safleoedd arfaethedig eu nodi ar wahân ac yna (lle mae'r wybodaeth ar gael) cânt eu cyfuno a'u cynnwys mewn cyfanswm (fel yn Nhabl 1 isod).

Mae tabl sy'n cofnodi'r canlyniadau llawn o gyfnod arolwg 2022/23 wedi'i gynnwys yn Atodiad 1.

Fel yr amlygwyd uchod, mae'n bwysig pwysleisio bod yr Adolygiad Tir Cyflogaeth hwn wedi defnyddio'r gwaith a wnaed fel paratoad ar gyfer y CDLl Diwygiedig Adneuo Cyntaf, lle cynhaliwyd adolygiad llawn a gwnaethpwyd mwy o waith dadansoddi mewn perthynas â'r safleoedd unigol, nag a wnaed yn flaenorol ar gyfer Adolygiadau Tir Cyflogaeth cynharach. Cafodd dadansoddi a diwygio pellach eu gwneud wrth baratoi'r Ail Gynllun Adneuo. Mae canlyniadau'r newidiadau i'r ddau Gynllun Adneuo wedi arwain at rai newidiadau sylweddol i'r ffigurau o'r blynyddoedd blaenorol mewn rhai achosion.  Mae rhai o'r rhesymau pam mae hyn wedi digwydd yn cynnwys y canlynol:

- Cynnydd o ran faint o dir a ddyrennir ar gyfer cyflogaeth ar safleoedd penodol, gan adlewyrchu caniatâd newydd;
- Lleihau neu ddileu dyraniadau penodol yn y CDLl presennol oherwydd caniatâd ar gyfer defnydd gwahanol;
- Newid o'r cynllun arfaethedig i'r un presennol i adlewyrchu'r defnydd presennol;
- Cynyddu maint rhai safleoedd a nodwyd fel tir cyflogaeth presennol i adlewyrchu'r defnydd presennol;
- Lleihau maint rhai safleoedd a nodwyd fel tir cyflogaeth presennol i adlewyrchu nad ydynt yn cael eu defnyddio mwyach, neu eu bod yn adfeiliedig;
- Dyraniadau newydd o safleoedd y gellir eu cyflawni sy'n adlewyrchu caniatâd neu safleoedd ymgeisio newydd;
- Cywiro meintiau oherwydd bod y wybodaeth o'r System Gwybodaeth Ddaearyddol wedi'i diweddaru

# 4 Y CANLYNIADAU

## 4.1 SAFLEOEDD CYFLOGAETH PRESENNOL

Cyfanswm arwynebedd y tir a glustnodwyd at ddibenion cyflogaeth yn 2023 oedd 457 Ha

O fewn cyfanswm arwynebedd y safle, roedd yr adeiladau / clostiroedd oedd yn cael eu defnyddio (at ddibenion cyflogaeth - B1, B2, B8 ac at ddefnydd arall) yn 2023 yn cwmpasu 119 Ha.

O'r ffigur hwn, roedd yr adeiladau / clostiroedd oedd yn cael eu defnyddio at ddibenion cyflogaeth (B1, B2, B8) yn dod i gyfanswm o 94 Ha (79%).

Roedd y rheiny oedd yn cael eu defnyddio ar gyfer Dosbarthiadau Defnydd heblaw rhai B yn cwmpasu 20 Ha. Fodd bynnag, caiff llawer o hyn ei hawlio gan fathau o ddefnydd sy'n perthyn yn agos i'r rheiny yn y dosbarthiadau defnydd cyflogaeth (dosbarthiadau sui generis / eraill - Dosbarthiadau Defnydd A, C a D):

- Sui generis – 14 Ha.

- Eraill (A, C, D) – 5 Ha.

Roedd yr arwynebedd o fewn safleoedd sydd i'w defnyddio ar gyfer seilwaith (gan gynnwys meysydd parcio / tirweddu / ardaloedd a oedd yn rhy anodd i'w datblygu) yn dod i gyfanswm o 338 Ha.

Roedd y ‘tir gwag' h.y. adeiladau/clostiroedd gwag neu nad oeddent yn cael eu defnyddio yn 2023 yn dod i gyfanswm o 6 Ha.

Yn nhermau canran ledled y Sir, ac o ran arwynebedd cyffredinol y safleoedd, roedd y cyfrannau a ddefnyddiwyd ar gyfer gwahanol ddosbarthiadau defnydd tir fel a ganlyn:

- Adeiladau/clostiroedd at ddefnydd cyflogaeth (B1, B2, B8) - 21%.
- Adeiladau/clostiroedd at ddefnydd heblaw B - 4%.
- Ardal a ddefnyddir ar gyfer seilwaith/tirweddu neu sy'n rhy anodd i'w datblygu – 74%[1].
- Adeiladau/clostiroedd gwag – 1%.

Fodd bynnag, trwy ddileu'r ardaloedd sylweddol a ddefnyddiwyd ar gyfer seilwaith / tirweddu ac ati a rhannu hyn yn ardal adeiladau / clostiroedd yn unig, roedd y cyfrannau fel a ganlyn:

- Adeiladau/clostiroedd at ddefnydd cyflogaeth (B1, B2, B8) - 79%.
- Adeiladau/clostiroedd at ddefnydd heblaw B - 16%.
- Adeiladau/clostiroedd gwag – 5%.

[1] Noder: Mae hyn yn cynnwys ardaloedd sy'n gysylltiedig â gweithgarwch defnydd tir a gweithrediadau cyflogaeth ac sy'n hanfodol yn hyn o beth.

Mae'r adran ganlynol yn nodi'r newidiadau sydd wedi digwydd i'r tir cyflogaeth (arfaethedig a phresennol) yn ystod y cyfnod 2022-23. Rhannwyd hyn rhwng y newidiadau sydd wedi digwydd mewn perthynas â'r CDLl presennol, a'r rhai sydd wedi digwydd yn rhan o broses Adolygu'r CDLl (a'r arolygon safle diweddaraf o ran y safleoedd presennol). Mae'r rhai sy'n ymwneud â'r CDLl presennol yn cael eu cynnwys er gwybodaeth.

## 4.2 SAFLEOEDD CYFLOGAETH ARFAETHEDIG - CDLL PRESENNOL

Mae darparu tir cyflogaeth yn elfen bwysig o'r CDLl. Datgelodd y dystiolaeth a gyflwynwyd yn y pedwar Adroddiad Monitro Blynyddol cyntaf fod y tir cyflogaeth a hawliwyd ar safleoedd dyranedig y CDLl wedi parhau i gynyddu ers mabwysiadu'r Cynllun ym mis Rhagfyr 2014. Targed Polisi Monitro'r CDLl ar gyfer cyflogaeth yw bod y 111.13 Ha o dir cyflogaeth a ddyrennir ym Mholisi SP7 yn cael ei ddatblygu dros gyfnod y Cynllun. Mae'r dangosyddion, y targedau a'r sbardunau a nodir yn y CDLl fel a ganlyn:

| Dangosydd | Targed Monitro Blynyddol / Dros Dro | Sbardun asesu |
|---|---|---|
| Caniatâd a roddir ar gyfer datblygu ar dir cyflogaeth a restrir ym Mholisi SP7.*<br><br>Caniatâd ar gyfer, neu argaeledd, seilwaith ar y safle neu seilwaith cysylltiedig sy'n hwyluso'r gwaith o ddarparu safleoedd cyflogaeth (ha) fel y'u rhestrir ym Mholisi SP7.* | Mae'r 25% (h.y. 27.78ha) o dir cyflogaeth a ddyrannwyd gan Bolisi SP7 naill ai'n cael caniatâd cynllunio neu ar gael i'w ddatblygu o fewn 2 flynedd gyntaf y Cynllun ar ôl ei fabwysiadu. | Mae llai na 25% o dir cyflogaeth a ddyrannwyd gan Bolisi SP7, gydag amrywiant ychwanegol o 20% o dan y ffigur targed (h.y. 22.22ha) i ganiatáu hyblygrwydd, wedi'i ganiatáu neu ar gael o fewn 2 flynedd o'i fabwysiadu. |

Mae targed y polisi monitro yn ymwneud â faint o dir cyflogaeth a ganiatawyd neu sydd wedi dod i law o fewn dwy flynedd o fabwysiadu'r Cynllun. Canfuwyd bod bron i 90% o'r targed monitro blynyddol / dros dro ar gyfer y ddwy flynedd gyntaf eisoes wedi'i fodloni erbyn hyn.

Ar gyfer y seithfed Adroddiad Monitro Blynyddol, a gwmpasai'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023, ni chafodd rhagor o dir ar ddyraniadau cyflogaeth ganiatâd cynllunio ar gyfer gweithgarwch cyflogaeth, felly mae'r ffigur yn aros yr un peth ag ydoedd yn Adolygiad 2022 – 33.76Ha.

Cafodd y targed monitro a nodir yn y CDLl (25% o dir cyflogaeth a ddyrannwyd gan Bolisi SP7 naill ai'n llwyddo i gael caniatâd cynllunio neu ar gael i'w ddatblygu o fewn dwy flynedd gyntaf y Cynllun ar ôl ei fabwysiadu) ei fodloni yn ystod cyfnod Adroddiad Monitro Blynyddol 2 yn 2017 (gan ystyried yr amrywiant ychwanegol o 20% o dan y targed i ganiatáu hyblygrwydd).  Mae'r tir pellach a hawliwyd yn ystod cyfnod yr Adroddiad Monitro Blynyddol dilynol yn dystiolaeth fod y safleoedd a ddyrannwyd at ddefnydd cyflogaeth yn y CDLl yn parhau i fod yn ymarferol.

I gloi, gwnaed cynnydd clir tuag at ddarparu'r tir a ddyrannwyd at ddibenion cyflogaeth yn y CDLl mabwysiedig presennol.  Bydd gwaith monitro ac adrodd pellach mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol dilynol yn parhau ar y cyd â'r broses Adolygu.  Bydd y cyfraddau deiliadaeth ar gyfer tir cyflogaeth sydd wedi'i ddatblygu hefyd yn parhau i gael eu monitro fel rhan o broses yr Adolygiad Tir Cyflogaeth a fydd yn rhedeg ochr yn ochr â'r Adroddiad Monitro Blynyddol.

## 4.3 SAFLEOEDD CYFLOGAETH ARFAETHEDIG - CYNLLUN DATBLYGU LLEOL ADNEUO DIWYGIEDIG

Fel yr amlygwyd uchod, mae'r ffigurau yn Atodiad 1 yn adlewyrchu'r newidiadau a wnaethpwyd wrth baratoi'r Cynlluniau Diwygiedig Adneuo [Cyntaf ac Ail].  O ganlyniad, mae cyfanswm y ffigur dyraniad safle wedi cael ei leihau o 111.13ha (yn y CDLl presennol) i'r 71.21ha a ddyrannwyd yn yr Ail Gynllun Diwygiedig Adneuo.  O gyfanswm y ffigur a ddyrannwyd, nodwyd yn Adolygiad Tir Cyflogaeth y llynedd (2022) [ar sail yr adolygiadau fel roeddent yn fersiwn Adneuo Gyntaf y CDLl Diwygiedig] fod 18.08ha wedi cael caniatâd cynllunio (naill ai yng nghyfnod adrodd 2020-22, neu drwy ganiatâd cynharach sydd eisoes mewn bodolaeth).  Gostyngodd y ffigur hwn i 17.84ha, ar ôl mesuriadau a gostyngiadau cywirach mewn dyraniadau cyffredinol yn Ail Fersiwn Adneuo y CDL Diwygiedig.

## 4.4 NEWIDIADAU MEWN SAFLEOEDD CYFLOGAETH PRESENNOL - CDLL PRESENNOL

Cafodd achosion o ganiatâd cynllunio ar safleoedd cyflogaeth presennol (fel y'u hanodir yn y CDLl presennol) eu monitro fel rhan o'r Adolygiad hwn.  Ers mabwysiadu'r Cynllun ym mis Rhagfyr 2014, rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfanswm o 12.175ha[2] – y ffigur cyfan ar

[2] D.S. Mae'r 12.175ha uchod yn adeiladu ar yr 11.75ha o Adolygiad 2022 yn yr ystyr y rhoddwyd caniatâd cynllunio ar 0.425ha o safleoedd cyflogaeth presennol.

gyfer y cyfnod monitro diweddaraf (Ebrill 2022 – 31 Mawrth 2023) yw 0.425ha. Mae'r caniatâd a roddwyd yn ymwneud â'r canlynol, a newid defnydd oedd y math mwyaf cyffredin:

- Newid Defnydd (o fewn yr un dosbarth defnydd neu newid o un defnydd i un arall)
- Estyniadau i weithrediadau presennol
- Dymchwel adeiladau presennol a chodi rhai newydd yn eu lle
- Ailddefnyddio tir llwyd oedd wedi'i ddatblygu o'r blaen lle'r oedd y defnydd presennol/gwreiddiol wedi dod i ben

## 4.5 NEWIDIADAU MEWN SAFLEOEDD CYFLOGAETH PRESENNOL - CYNLLUN DATBLYGU LLEOL ADNEUO DIWYGIEDIG

Fel yr amlygwyd uchod, mae'r ffigurau yn Atodiad 1 yn adlewyrchu'r newidiadau a wnaethpwyd wrth baratoi'r fersiwn Gyntaf a'r Ail o'r CDLl Diwygiedig, lle cynhaliwyd ailasesiad helaeth o'r sefyllfa tir cyflogaeth. Dros y cyfnod ers mabwysiadu'r CDLl presennol mae rhannau penodol o rai dyraniadau cyflogaeth arfaethedig wedi cael eu datblygu, ac roedd y rhain wedi'u nodi fel tir cyflogaeth presennol yn yr Ail Gynllun Adneuo. Manylir ar y caniatâd cynllunio yn atodiad 1. Ymhlith y rhesymau eraill dros y newidiadau i'r sefyllfa bresennol o ran tir cyflogaeth yn yr Ail Gynllun Adneuo mae gostyngiad oherwydd bod ardaloedd yn cael eu diogelu fel safleoedd cyflogaeth presennol, er enghraifft oherwydd adfeiliedigrwydd neu newid i ddefnydd nad yw'n ymwneud â chyflogaeth. I'r gwrthwyneb, mae cynnydd wedi bod o ran cyflogaeth mewn ardaloedd eraill oherwydd bod tir wedi cael ei helaethu, er enghraifft ar gyfer defnydd ategol megis storio sydd yn gysylltiedig â busnes sy'n bodoli eisoes. Mae'r ffigur o 13.52ha a nodir yn Atodiad 1 yn cwmpasu'r caniatâd dros y cyfnod o fabwysiadu'r CDLl cyntaf hyd at ddiwedd mis Mawrth 2023.

## 4.6 CYMHARIAETH RHWNG Y FFIGURAU DIWEDDARAF A'R RHEINY O ADOLYGIAD TIR CYFLOGAETH 2022

Drwy gymharu'r ffigurau a nodwyd yn yr Astudiaeth hon â'r rheiny o'r Adolygiad Tir Cyflogaeth yn 2022, gallwn weld y newidiadau sydd wedi digwydd dros y cyfnod. Tra bod hyn yn rhy gynnar i sefydlu p'un a oes yna unrhyw dueddiadau'n datblygu, bydd er hynny'n rhoi cipolwg i ni ar y sefyllfa bresennol, gan gynnwys syniad o hyd a lled trosiant busnes a phwysigrwydd parhaus yr ardal gyfan, eithaf mawr, o safleoedd cyflogaeth presennol yn y Sir.

Rhaid pwysleisio gair o rybudd fodd bynnag. Mae'r adolygiad tir cyflogaeth blynyddol yn broses sy'n datblygu ac mae data newydd ar gael bob blwyddyn, na fyddai o bosibl wedi bod

ar gael neu'n hysbys yn y blynyddoedd blaenorol.  Rhaid ystyried hyn pan wneir cymariaethau uniongyrchol rhwng adolygiadau dilynol, ac mae'n arbennig o berthnasol wrth weld a chymharu'r data a geir mewn adolygiadau tir cyflogaeth a gynhyrchwyd cyn 2019, gan fod y ffigurau ar gyfer adolygiad tir cyflogaeth 2019 (a'r ddau adolygiad dilynol) yn cynnwys y newidiadau a gyflwynwyd fel rhan o'r Adolygiad o'r CDLl.

Gwelir y graffiau sy'n nodi'r newidiadau rhwng 2022 a 2023 yn Atodiad 2.  Mae'r graffiau yn seiliedig ar y canlynol:

1. Cyfanswm arwynebedd y safle a chyfanswm arwynebedd yr adeiladau / clostiroedd
2. Cyfanswm arwynebedd yr adeiladau / clostiroedd a'r gyfran sy'n wag neu heb fod yn cael eu defnyddio.
3. Cyfran y Defnydd Dosbarth B1, B2, B8 (%)

Yn gyffredinol, mae'r graffiau'n dangos y lefel gymharol isel o arwynebedd y safle a ddefnyddir gan adeiladau a chlostiroedd mewn perthynas ag arwynebedd cyffredinol y safle, gyda chryn dipyn o dir yn cael ei ddefnyddio fel man parcio ceir neu fel tirweddu.  Fodd bynnag, mae rhywfaint o'r tir hwn yn anaddas i'w ddatblygu oherwydd ffactorau fel topograffeg neu agosrwydd at ddatblygiadau agored i ddifrod.

Roedd yr asesiad manwl o gyflenwad tir cyflogaeth presennol y Sir eisoes wedi'i wneud fel rhan o'r gwaith o baratoi'r CDLl Diwygiedig Adneuo [Cyntaf], ac roedd Adolygiad Tir Cyflogaeth 2021-22 eisoes wedi rhoi ystyriaeth i hyn.  Fel yr amlygwyd uchod, roedd y gwaith o baratoi’r Ail Gynllun Adneuo unwaith eto yn cynnwys asesiad pellach o’r safleoedd cyflogaeth presennol i sicrhau bod y Cynllun Diwygiedig yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf a chafodd hyn ei gynnwys yn ffigurau Adolygiad Tir Cyflogaeth 2022-23. Fodd bynnag, bach iawn oedd y gwahaniaethau rhwng y ddau fersiwn Adneuo a dengys y graffiau mai ychydig iawn o newid sydd wedi bod yn yr amser rhwng cyfnodau’r ddau adolygiad.

Er mai ychydig iawn o newid sydd rhwng y ddwy flynedd o ran cyfran y dosbarthiadau defnydd B ar y safleoedd cyflogaeth, mae'r canlyniadau'n dangos nad yw lefelau defnyddiau dosbarth B yn uchel mewn llawer o aneddiadau, yn enwedig y rhai yn yr haenau is.  Y rheswm am hyn yn aml yw y gall busnesau mawr o ddefnydd dosbarth sui generis neu ddosbarth A ddominyddu safle penodol mewn rhai ardaloedd.  Er y gellid ystyried bod diffyg defnydd cyflogaeth dosbarth B traddodiadol ar rai safleoedd yn peri pryder, mae hyn yn aml yn duedd hanesyddol ac ar ben hynny mae cysylltiad agos rhwng defnyddiau o'r fath a

defnyddiau B traddodiadol, a gallant wneud cyfraniad economaidd pwysig i'r ardaloedd hyn o ran gwasanaethau a darparu swyddi lleol.  Mae rhesymau eraill dros y lefel isel o ddefnydd dosbarth B mewn rhai aneddiadau yn deillio o lefelau unedau gwag.  Mae Brynaman yn enghraifft, y mae ei lefel isel o ddefnydd B yn cael ei gogwyddo gan hen safle sylweddol Ffatri Remploy.  Ar ôl bod yn wag ers nifer o flynyddoedd, mae'r safle wedi cael ei ailddatblygu ac mae bellach mewn defnydd sui generis.  I'r gwrthwyneb, bu cynnydd bach mewn defnyddiau dosbarth B yng Nglanaman/y Garnant yn y ddwy flynedd ddiwethaf, wrth ailddatblygu unedau newydd yng Ngweithdai Glanaman, Heol Tabernacl.

## 4.7 CANIATÂD CYNLLUNIO AT DDIBENION CYFLOGAETH AR SAFLEOEDD ERAILL

Yn ogystal â datblygiadau newydd sy'n gysylltiedig â chyflogaeth ar safleoedd cyflogaeth presennol ac arfaethedig y CDLl, dangoswyd diddordeb mewn ardaloedd eraill o dir.  Mae rhai o'r achosion hyn lle rhoddwyd caniatâd wedi'u lleoli o fewn terfynau datblygu aneddiadau, tra bod eraill gerllaw safleoedd a ddefnyddiwyd o'r blaen (tir llwyd) ac yn aml yn gysylltiedig â hwy.  Yn gyffredinol mae'r achosion hyn lle rhoddwyd caniatâd yn eithaf bach o ran maint, ond gyda'i gilydd maent yn gyfwerth â sawl hectar.  Gyda'i gilydd ers mabwysiadu'r CDLl presennol, mae'r 'hap-safleoedd' hyn yn dod i <u>23.14ha</u> o dir (2.78ha yn ystod cyfnod Adolygiad Tir Cyflogaeth 2022-23).  D.S. mae hyn yn cyfeirio at ddefnydd yn y CDLl presennol (dim ond 19.99ha o hap-safleoedd a ddefnyddiwyd mewn perthynas â'r Cynllun Diwygiedig Adneuo [Cyntaf ac Ail] oherwydd newidiadau i ddyraniadau tir).

## 4.8 CANLYNIADAU YN SEILIEDIG AR ARDAL

Lleoliadau yn y tair ardal dwf sef Caerfyrddin, Llanelli a Rhydaman / Cross Hands sy'n gwneud y cyfraniadau mwyaf i gyfanswm arwynebedd y safleoedd.  Mae hyn oherwydd mai gan yr ardaloedd yma y mae'r crynodiadau uchaf o safleoedd cyflogaeth yn y Sir, ac oherwydd eu lleoliadau cynaliadwy dyma hefyd yr ardaloedd lle dyrannwyd y nifer uchaf o ddyraniadau cyflogaeth yn y CDLl.  Mae Tabl 1 isod yn cyflwyno'r wybodaeth hon ar gyfer cyfnod y Cynllun (hyd at 31 Mawrth 2023).

Er mwyn cymharu ag Adolygiadau Tir Cyflogaeth blaenorol, mae'r haenau anheddiad yn Nhabl 1 yn parhau fel y maent yn y CDLl presennol [gan nad yw’r CDLl Diwygiedig wedi cael ei archwilio bellach ac nid yw wedi’i fabwysiadu].  Fodd bynnag, mae'r gyfradd defnydd yn adlewyrchu'r data safleoedd diwygiedig (h.y. tir cyflogaeth arfaethedig a phresennol) fel y nodir yn yr Ail GDLl Diwygiedig Adneuo.

Tabl 1: Cyfanswm arwynebedd y tir cyflogaeth (Presennol ac Arfaethedig), yn ôl haen y CDLl, ynghyd â'r tir a hawliwyd dros gyfnod y Cynllun (hyd at 31 Mawrth 2023) (Mae'r cyfansymiau wedi'u talgrynnu i'r Hectar agosaf)

| Lleoliad | Cyfanswm Arwynebedd 2022 | 2022 (%) | Tir a hawliwyd (Ha dros gyfnod y Cynllun) | % y tir a hawliwyd |
|---|---|---|---|---|
| Ardaloedd Twf (Haen 1): | | | | |
| Caerfyrddin | 45.18 | 9 | - | |
| Llanelli | 233.42 | 44 | - | |
| Rhydaman / Cross Hands | 146.89 | 28 | - | |
| | | | 33.83 | 63 |
| Canolfannau Gwasanaeth (Haen 2) | 57.45 | 11 | 10.69 | 20 |
| | | | | |
| Canolfannau Gwasanaethau Lleol (Haen 3) | 34.28 | 6 | 5.87 | 11 |
| | | | | |
| Cymunedau Cynaliadwy (Haen 4) | 11.13 | 2 | 3.06 | 6 |
| | | | | |
| Cyfanswm y Sir | 528 | 100 | 53 | 100 |

Mae'r ffigurau ar gyfer hap-safleoedd wedi'u cynnwys yn y cyfraddau hawlio cyffredinol ym mhob haen.

# 5 MATERION PARHAUS AC ARGYMHELLION

## 5.1 Y GALLU I GYFLAWNI

Adeg yr Archwiliad o'r CDLl, mynegwyd pryder gan yr Arolygydd nad oedd nifer o safleoedd cyflogaeth a ddyrannwyd yn y Cynllun Datblygu Unedol wedi'u datblygu. Arweiniodd hyn at ail-asesu'r dyraniadau a'r lleihad dilynol yn yr arwynebedd cyffredinol a ddyrannwyd at ddibenion cyflogaeth. Fodd bynnag, er gwaethaf y lleihad hwn, cynhyrchwyd tystiolaeth ar gyfer yr Archwiliad a ddangosai lefel y diddordeb mewn cyflogaeth yn y Sir a sut yr oedd hyn yn dod i'r amlwg trwy ddyrannu safleoedd. Dangoswyd bod rhai safleoedd yn cael eu marchnata'n weithredol, tra bod eraill yn elwa o Ganllawiau Cynllunio Atodol neu brif gynlluniau. Ymhellach, dangoswyd bod yna ddiddordeb mewn sawl safle gan y ffaith fod yna ganiatâd cynllunio presennol yn bodoli ar bob rhan o'r dyraniadau neu ar rannau ohonynt. Roedd holl ffactorau hyn yn cynnig lefel o sicrwydd mewn perthynas ag ymarferoldeb y dyraniadau penodol yma yn y dyfodol.

Bydd y gallu i gyflawni yn parhau i fod yn ysgogydd allweddol wrth baratoi'r CDLl Diwygiedig, a thasg yr Adroddiadau Monitro Blynyddol a'r Adolygiadau Tir Cyflogaeth, yn ogystal â darnau eraill o waith fel Astudiaeth Economaidd y Ddwy Sir a gomisiynwyd (ar y cyd â

Chyngor Sir Penfro) fydd darparu'r dystiolaeth mewn perthynas â lefelau gweithgarwch a'r dyraniadau cyflogaeth a thir cyflogaeth a hawlir yn gyffredinol.

Mae'r CDLl mabwysiedig yn dyrannu 111.13 ha o dir at ddibenion cyflogaeth. Mae adrannau uchod yn dangos y cynnydd a wnaed hyd yma wrth ddarparu safleoedd. Fel y dangosir, mae rhai safleoedd eisoes yn elwa o ganiatâd cynllunio ac felly maent yn ymrwymiadau. Er bod y diddordeb a ddangosir mewn safleoedd o'r fath yn galonogol, cynhaliwyd asesiad manwl i ymarferoldeb safleoedd cyflogaeth fel rhan o baratoi fersiwn cyntaf ac ail fersiwn y CDLl Diwygiedig Adneuo. Fel y nodwyd uchod, mae hyn wedi arwain at ostyngiad yn y dyraniadau cyflogaeth arfaethedig i 71.21ha o dir. Ynghyd â'r dyraniadau, mae diddordeb a gweithgarwch parhaus yn parhau i ddigwydd ar nifer helaeth o safleoedd cyflogaeth sydd gan y Sir ar hyn o bryd; mae hyn yn gyffredinol yn gysylltiedig ag ehangu busnes presennol, dymchwel ac ailadeiladu, neu drosiant hen fusnesau a'u disodli â mentrau newydd.

Yn unol â *Development Plans Manual Ed.3*, mae gwaith ar gyflawnadwyedd dyraniadau cyflogaeth yn y CDLl Diwygiedig yn mynd rhagddo drwy baratoi Datganiadau Tir Cyffredin gyda rhanddeiliaid (perchnogion/datblygwyr) ar gyfer rhai o’r dyraniadau cyflogaeth mwy o faint (safleoedd allweddol ) yn y CDLl Diwygiedig.

## 5.2 YR ASTUDIAETH ANGHENION CYFLOGAETH SECTOROL

Comisiynwyd yr ymgynghorwyr WSP i gynnal Astudiaeth Cyflogaeth Sectorol ar gyfer y Sir yn 2017. Mae hyn yn adlewyrchu ymrwymiad y Cyngor Sir i fynd ati'n barhaus i adolygu'r dystiolaeth er mwyn ategu'r CDLl, ynghyd â dogfennau corfforaethol a strategaethau eraill. Bydd y canfyddiadau a gyflwynir yn yr Astudiaeth yn darparu tystiolaeth ychwanegol fel rhan o'r gwaith o fonitro ac adolygu'r CDLl.

Er bod swm sylweddol o dir wedi'i ddyrannu at ddibenion cyflogaeth newydd yn y CDLl, mae'r Astudiaeth yn tynnu sylw at y ffaith fod y graddau y mabwysiadwyd hyn yn ystod y blynyddoedd diwethaf - ar ffurf caniatâd cynllunio a datblygiadau gwirioneddol - yn golygu y bydd y potensial llawn o greu swyddi yn cael ei gyfyngu'n ddifrifol oni bai fod yna gyflenwad newydd o dir cyflogaeth ychwanegol yn ystod cyfnod y CDLl diwygiedig dilynol. Yn hyn o beth cyfeirir hefyd at y dangosyddion pwysig eraill, nid lleiaf llofnodi Bargen Ddinesig Bae Abertawe a'i chynnwys a strategaeth adfywio'r Cyngor ei hun.

Roedd yr astudiaeth hon yn gipolwg ar amser (cyn Brexit a'r pandemig Covid-19) ac erbyn hyn mae wedi cael ei disodli i raddau helaeth gan waith pellach megis Astudiaeth Economaidd y Ddwy Sir ar gyfer Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin (gweler isod).

## 5.3 Y CDLL DIWYGIEDIG

Defnyddiwyd yr Adolygiadau Tir Cyflogaeth (a'r Adroddiadau Monitro Blynyddol), ynghyd â darnau o dystiolaeth megis yr Astudiaethau a gomisiynwyd wrth baratoi'r fersiynau Adneuo Cyntaf ac Ail o’r CDLl Diwygiedig. Roedd y darnau hyn o dystiolaeth yn darparu cofnod cyfredol o'r tir cyflogaeth a ddefnyddiwyd a throsiant tir cyflogaeth yn y Sir, ond yn nodi hefyd a yw dyraniadau cyflogaeth y CDLl cyfredol yn cael eu cyflawni. .

Yng ngoleuni cyngor cynllunio diweddaraf Llywodraeth Cymru sef *Canllawiau Cynllunio ar Adeiladu Sylfaen Dystiolaeth Datblygu Economaidd i Ategu Cynllun Datblygu Lleol*, mae cydweithio gyda'n partneriaid corfforaethol yn yr Is-adrannau Datblygu Economaidd ac Eiddo Corfforaethol yn parhau mewn perthynas â chyfnewid gwybodaeth ac adeiladu sylfaen dystiolaeth gadarn ar bob agwedd ar gyflogaeth, i'w defnyddio gan bawb dan sylw. Mae'r wybodaeth hon wedi bod yn hanfodol wrth helpu i nodi'r lleoliadau mwyaf priodol ar gyfer dyrannu tir at ddibenion cyflogaeth yn seiliedig ar angen economaidd, a'u priodoldeb o safbwynt cynllunio gofodol.

## 5.4 ASTUDIAETHAU ECONOMAIDD MWY NA LLEOL - ASTUDIAETH ECONOMAIDD Y DDWY SIR AR GYFER SIR BENFRO A SIR GAERFYRDDIN

Mae polisi cynllunio cenedlaethol yn cynghori y dylid casglu data ar 2 lefel, sef yn lleol ac yn fwy na lleol. Ar y lefel leol, mae Sir Gaerfyrddin yn monitro ei sefyllfa tir cyflogaeth yn barhaus drwy'r Adroddiadau Monitro Blynyddol a'r Adolygiadau Tir Cyflogaeth blynyddol.

Mae astudiaethau mwy na lleol yn dileu ffiniau gweinyddol ac yn edrych ar ffactorau eraill, megis teithio i ardaloedd gwaith. Byddai astudiaeth fwy na lleol yn fanteisiol i'r awdurdodau hynny, megis Sir Gaerfyrddin, sydd wedi dechrau ar eu hadolygiad o'r CDLl. Cynghorir astudiaethau o'r fath i ddilyn proses 6 cam Llywodraeth Cymru a nodir yn y *Canllawiau Ymarfer - Adeiladu Sylfaen Dystiolaeth Datblygu Economaidd i Ategu Cynllun Datblygu Lleol.* Mae'r Canllawiau yn pwysleisio y byddai'r gwaith yn helpu awdurdodau unigol gyda'u hadolygiadau o Gynlluniau Datblygu Lleol a'u sylfaen dystiolaeth.

O ganlyniad, fel rhan o'r gwaith o baratoi eu CDLlau Diwygiedig, cynhaliodd Cyngor Sir Caerfyrddin a Chyngor Sir Penfro (yn ogystal â'r ddau Awdurdod Parc Cenedlaethol o fewn eu ffiniau) drafodaethau a gwnaethant gomisiynu Arup i gynnal astudiaeth fwy na lleol ar gyfer yr Awdurdodau dan sylw.

Diben yr Astudiaeth yn y pen draw oedd darparu sail i gynllunio darpariaeth tir ac eiddo ar gyfer gweithgareddau economaidd ar draws y ddwy sir.  Drwy ddefnyddio dadansoddiad ystadegol, adolygiad llenyddiaeth manwl o fentrau sydd eisoes yn bodoli yn yr ardal a thystiolaeth anecdotaidd a ddarparwyd drwy ymgysylltu ag asiantaethau marchnad a busnesau allweddol, roedd yr Astudiaeth yn ceisio penderfynu a oes diffyg cyfatebiaeth ar hyn o bryd rhwng cyflenwi tir cyflogaeth strategol a'r galw amdano, yn ogystal â gwneud argymhellion ehangach mewn perthynas ag ymyriadau cadarnhaol a allai helpu i gefnogi twf economaidd.

Er bod canfyddiadau yr Astudiaeth yn dangos bod amcanestyniad o'r galw am dir cyflogaeth yn yr ardal yn isel (gyda rhagolygon Brexit yn cynrychioli dirywiadau yn y rhan fwyaf o sectorau yn yr ardal), mae hyder bod galw cudd, parodrwydd busnesau cynhenid i barhau a thyfu, ac awydd gan randdeiliaid i ddiogelu manteision lleoliadol ac asedau strategol ar gyfer twf yn y dyfodol. Yn ogystal, gellir ystyried mentrau sydd eisoes yn bodoli (megis y Fargen Ddinesig) fel cefnogaeth ar gyfer rhagolwg o ran twf cadarnhaol.

Mae'r canfyddiadau a'r argymhellion eraill yn nodi y dylai'r ardal fwy na lleol ganolbwyntio ar fanteisio ar ei chryfderau a'r asedau sy'n bodoli eisoes, gan ganfod atebion i gydweithio er mwyn lleihau neu oresgyn y bwlch gwerth a all fod yn rhwystr wrth ddatblygu/buddsoddi. Dylai'r ardal geisio diogelu asedau strategol er mwyn manteisio i'r eithaf ar eu budd i'r ardal, ochr yn ochr â chynllunio'n rhagweithiol ar gyfer safleoedd strategol lle y mae'r galw'n uchel.

Mae Astudiaeth y Ddwy Sir yn datblygu ymyriadau sy'n deillio o'r adolygiad llinell sylfaen cyflym, gwybodaeth anecdotaidd a ddarparwyd gan randdeiliaid a mentrau a amlinellir yn yr adolygiad llenyddiaeth.  Roedd yr ymyriadau hyn yn canolbwyntio ar naw pwnc eang a oedd yn helpu i lywio'r weledigaeth economaidd ar lefel fwy na lleol, yn ogystal â chynorthwyo i ffurfio'r polisïau o fewn CDLlau Diwygiedig perthnasol y ddwy sir.

Cafodd gwaith pellach ei wneud yn ddiweddarach yn 2020-21 gan Arup a oedd yn edrych ar 'ysgytwadau' economaidd digynsail Brexit a Covid-19.  Roedd Diweddariad 2020-21 yn ceisio 'profi' perthnasedd a graddfa'r newid ar gyfer pob un o'r ymyriadau a'r argymhellion

am safleoedd strategol a gyflwynwyd yn astudiaeth 2019. Roedd rhai o'r prif ganfyddiadau yn cynnwys y canlynol:

- Mae bygythiadau amlwg yn deillio o gyd-destun economaidd sy'n newid yn gyflym yn 2020/2021 o ganlyniad i Brexit a'r pandemig Covid-19. Mae bygythiadau pob un yn ymwneud, yn rhannol, ag ymdeimlad o ansicrwydd ynghylch sut y gallai'r dyfodol edrych.

- Mae yna hefyd gyfleoedd clir i Ardal yr Astudiaeth sydd wedi dod i'r amlwg dros y flwyddyn ddiwethaf. Er enghraifft, mewn perthynas ag amaethyddiaeth mae cyfle i hyrwyddo arferion rheoli tir yn gynaliadwy ymhellach, gan fywiogi'r sector wrth gyfrannu at dargedau amgylcheddol.

- Mae yna ymdeimlad o 'entrepreneuriaeth' yn ardal y ddwy sir o ganlyniad i'r pandemig a gallai hyn arwain at rywfaint o dwf mewn sectorau allweddol a nodwyd megis twristiaeth a'r diwydiannau creadigol.

- Yn y tymor hwy, mae'r rhagolygon yn dangos bod twf yn cael ei ragweld mewn llety a gwasanaethau bwyd, gwasanaethau cyhoeddus a gwasanaethau proffesiynol a gwasanaethau preifat eraill. Rhagwelir y bydd cyflogaeth gweithgynhyrchu yn dal i brofi dirywiad cyffredinol dros y tymor hir, felly hefyd amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgota a oedd yn wir yn 2019.

- Dylid nodi hefyd bod y galw am dir a ragwelir yn parhau i adlewyrchu cymeriad daearyddol ardal y ddwy sir, sy'n canolbwyntio mwy ar sectorau megis twristiaeth, hamdden a gwasanaethau cyhoeddus nad ydynt yn arwain yn hanesyddol at alw mawr am dir.

Roedd Diweddariad 2020-21 hefyd yn nodi'r negeseuon allweddol sy'n codi mewn perthynas â phob un o'r ymyriadau (yn astudiaeth 2019), megis gwneud y gorau o gryfderau sectorol cyflenwol ac archwilio opsiynau i ymateb i'r galw gan y sectorau, yn ogystal ag ymateb yn uniongyrchol i ganlyniadau Covid-19 lle mae'r angen am gydlynu a rhwydweithiau busnes cryf wedi dod i'r amlwg, a'r newidiadau hirdymor posibl yn y ffordd y mae pobl yn dewis byw a gweithio – a allai efallai wella 'atynfa ffordd o fyw' Gorllewin Cymru.

## 5.5 DARNAU ERAILL O DYSTIOLAETH

Yn ddiweddar bu i Gyngor Sir Caerfyrddin gomisiynu'r ymgynghorwyr Turleys [a’r arbenigwyr dadansoddi economaidd SQW] i gynnal Astudiaeth Tai a Thwf Economaidd yn benodol i ddarparu tystiolaeth i gyfrannu at baratoi'r Ail CDLl Diwygiedig Adneuo.

O ran twf swyddi yn y dyfodol, wedi adolygu perfformiad economaidd dros gyfnod y cynllun presennol, rhoddodd SQW ystyriaeth i'r potensial ar gyfer twf economaidd pellach yn Sir

Gaerfyrddin dros gyfnod y cynllun newydd hyd at 2033. Cafodd tri rhagolwg sylfaenol, gan bob un o'r prif ddaroganwyr, eu hystyried a awgrymai y gallai rhwng 149 a 545 o swyddi gael eu creu bob blwyddyn.

Cafodd y waelodlin hon hefyd ei haddasu i gyfrif am fuddsoddiadau hysbys a/neu gredadwy sy'n debygol o ddod ymlaen ac o greu swyddi ychwanegol yn y blynyddoedd i ddod ond nad ydynt wedi'u hadlewyrchu yn y waelodlin. Mae'r SQW yn amcangyfrif y gallai tua 674 o swyddi'r flwyddyn gael eu creu mewn senario twf o'r fath a arweinir gan fuddsoddiad. Fodd bynnag, nodwyd yr ansicrwydd macroeconomaidd sylweddol iawn sy'n bodoli ar hyn o bryd, a'i oblygiadau negyddol posibl yn y tymor byr i ganolig, ochr yn ochr â'r posibilrwydd parhaus o farchnad lafur gyfyngedig, o gofio'r diweithdra isel yn y gorffennol a'r arwyddion diweddar o weithwyr yn dewis peidio â gweithio mwyach.

## 6 CASGLIADAU

Dyma'r seithfed Adolygiad Tir Cyflogaeth, sydd wedi parhau i adeiladu ar y data a gasglwyd yn rhan o adroddiadau monitro blynyddol y CDLl, yn ogystal â'r arolygon safle a gesglir bob gwanwyn. Roedd y tri Adolygiad Tir Cyflogaeth cyntaf yn ymwneud yn unig â'r CDLl mabwysiedig presennol. Fodd bynnag, mae'r Adolygiad Tir Cyflogaeth wedi cael ei lunio ar y cyd â'r broses o ddiwygio'r CDLl a ddechreuodd yn ystod 2018 yn unol â'r Cytundeb Cyflawni ar gyfer paratoi'r CDLl Diwygiedig (newydd), y cytunwyd arno gan Lywodraeth Cymru ar 28 Mehefin 2018.

Fel rhan o’r broses o Adolygu’r CDLl, yn ystod rhan olaf 2018 a rhan gyntaf 2019, cynhaliwyd ailasesiad helaeth ar y dyraniadau cyflogaeth yn y CDLl mabwysiedig presennol yn ogystal â'r safleoedd cyflogaeth presennol. Ynghyd â hyn, roedd darnau eraill o dystiolaeth yn cael eu cynhyrchu, yn fwyaf nodedig Astudiaeth Economaidd Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin, a ddefnyddiwyd wrth baratoi Adolygiad o'r CDLl ynghyd â'r pedwar Adolygiad Tir Cyflogaeth blynyddol diwethaf.

Oherwydd bod y CDLl Diwygiedig wedi cyrraedd cam allweddol yn ei ddatblygiad, mae'r dystiolaeth ddiwygiedig wedi'i chynnwys yn y pedwar Adolygiad Tir Cyflogaeth diweddaraf, gan gynnwys y newidiadau i'r dyraniadau cyflogaeth, a nodir yn Atodiad 1 fel y maent yn ymddangos yn yr Ail fersiwn Adneuo. Fodd bynnag, er mwyn gallu cymharu â chanlyniadau Adolygiadau Tir Cyflogaeth blaenorol, mae haenau'r aneddiadau (sydd wedi bod yn destun

gwelliant yn y Cynllun Diwygiedig) wedi cael eu nodi yn y modd y maent yn ymddangos yn y CDLl mabwysiedig presennol.

Mae'r Adolygiad Tir Cyflogaeth diweddaraf hwn ar gyfer y cyfnod 2022/23 wedi ei lunio gan ystyried y ffigurau diweddaraf a nodir yn yr Ail Gynllun Adneuo Diwygiedig, a gyhoeddwyd at ddibenion ymgynghori rhwng 17 Chwefror a 14 Ebrill 2023, a bydd yn ffurfio rhan o'r dystiolaeth gefndir sy'n cyd-fynd â chyflwyno'r CDLl Diwygiedig i Lywodraeth Cymru ar gyfer Archwiliad yn ddiweddarach yn 2023.

# Atodiad 1 Maint a chyfraddau defnydd yr holl safleoedd cyflogaeth presennol ac arfaethedig

| Enw'r safle | Cyfanswm Arwynebedd y Safle (Ha) 2023 | Adeiladau / tir caeedig, mewn defnydd (Ha) | Seilwaith, tirweddu a thir anodd ei ddatblygu (Ha) | Adeiladau / tir caeedig gwag neu ddim mewn defnydd (Ha)) | Adeiladau / tir caeedig ddim mewn defnydd cyflogaeth Dosbarth B (Ha) | Cyfran o Ddosbarth Defnydd (B1, B2, B8) (%) | Cyf. caniatâd cynllunio (wrth baratoi'r CDLl neu ers mabwysiadu'r CDLl) | Maint yr ardal sy'n cynnwys caniatâd cynllunio (Ha) yn ystod cyfnod y cynllun (dyraniadau) | Maint yr ardal sy'n cynnwys caniatâd cynllunio (Ha) yn ystod cyfnod y cynllun (dyraniadau) (safleoedd presennol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Principal Centres (Tier 1)** | | | | | | | | | |
| **PrC1 Caerfyrddin** | | | | | | | | | |
| Mekatek | 4.85 | 1.44 | 3.41 | 0 | 0.37 | 75 | PL/00519 | | 0.05 |
| Cillefwr | 19.76 | 4.46 | 15.3 | 0.78 | 1.42 | 51 | W/31332; W/3879; PL/03160; PL/03271 | | 1.14 |
| Meli Borthiant | 1.88 | 0.48 | 1.40 | 0 | 0 | 100 | | | |
| Cyfanswm (presennol) | 26.49 | 6.38 | 20.11 | 0.78 | 1.79 | 60 | | | 1.19 |
| Cillefwr PrC1/E1 | 4.167 | | | | | | W/35655 | 0.56 | |
| Gorllewin Caerfyrddin PrC1/MU1 | 4.53 | | | | | | | | |
| Pibwrlwyd PrC1/MU2 | 8.95 | | | | | | W/36830; W/38877 | 0.58 | |
| Yr Egin PrC1/SS1 | 1.04 | | | | | | W/34228 | 1.04 | |
| Cyfanswm (arfaethedig) | 18.687 | | | | | | | 2.18 | |
| **PrC2 Llanelli** | | | | | | | | | |
| Dafen | 70.4 | 21.41 | 48.99 | 0.05 | 2.13 | 90 | S/38483; S/39804; PL/00766; PL04305 (0.015ha); PL/04647 (0.03ha) | | 0.275 |
| Trostre | 66.53 | 14.30 | 52.23 | 0.03 | 1.96 | 86 | S/30376; S/30377; S/33614; S/38307; PL/00299; PL/01728 | | 0.75 |
| Llynnoedd Delta | 4.22 | 0.72 | 3.50 | 0.03 | 0.12 | 78 | | | |
| Bynea | 33.07 | 7.09 | 25.98 | 0.19 | 2.89 | 57 | PL/01058 | | 0.04 |
| Doc y Gogledd | 1.64 | 0.87 | 0.77 | 0.11 | 0.51 | 29 | | | |
| AMG Resources (yn cynnwys Iard Sgrap) | 9.14 | 0.1 | 9.04 | 0 | 0 | 100 | | | |
| Parc y Plant | 3.2 | 2.529 | 0.671 | 0 | 0 | 100 | | | |
| Gweithdai Llanelli | 0.8 | 0.31 | 0.49 | 0.02 | 0 | 93 | | | |
| 100 Heol Trostre | 1.39 | 0.37 | 1.01 | 0.07 | 0 | 81 | | | |
| Depo, Heol Y Parc | 1.24 | 0.26 | 0.98 | 0 | 0.05 | 79 | PL/01238 (0.03ha) | | 0.03 |
| Heol Trosserch | 20.78 | 5.87 | 14.91 | 0 | 0.55 | 91 | | | |
| Parc Diwydiannol Glanyrafon | 3.52 | 0.94 | 2.58 | 0 | 0.19 | 80 | | | |
| Cyfanswm (presennol) | 215.93 | 54.77 | 161.18 | 0.5 | 8.4 | 84 | | | 1.095 |
| Dafen PrC2/E2 | 17.489 | | | | | | PL/00839 | 1.9 | |
| Cyfanswm (arfaethedig) | 17.489 | | | | | | | 1.9 | |

| Enw'r safle | Cyfanswm Arwynebedd y Safle (Ha) 2023 | Adeiladau / tir caeedig, mewn defnydd (Ha) | Seilwaith, tirweddu a thir anodd ei ddatblygu (Ha) | Adeiladau / tir caeedig gwag neu ddim mewn defnydd (Ha)) | Adeiladau / tir caeedig ddim mewn defnydd cyflogaeth Dosbarth B (Ha) | Cyfran o Ddosbarth Defnydd (B1, B2, B8) (%) | Cyf. caniatâd cynllunio (wrth baratoi'r CDLl neu ers mabwysiadu'r CDLl) | Maint yr ardal sy'n cynnwys caniatâd cynllunio (Ha) yn ystod cyfnod y cynllun (dyraniadau) | Maint yr ardal sy'n cynnwys caniatâd cynllunio (Ha) yn ystod cyfnod y cynllun (dyraniadau) (safleoedd presennol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **PrC3 Rhydaman / Cross Hands** | | | | | | | | | |
| Heol Parc Mawr (yn cynnwys Canolfan Fusnes a Gweithdai Cross Hands) | 11.65 | 2.09 | 9.56 | 0 | 0.5 | 76 | S/30672; E/35920; E/37324 | | 0.31 |
| Parc Bwyd Gorllewin Cross Hands West GA3/E8 | 12.92 | 3.56 | 9.36 | 0 | 0 | 100 | | | |
| Parc Menter | 5.19 | 0.82 | 4.37 | 0 | 0.07 | 91 | S/22280; S/27072 | | 1.53 |
| Stad Ddiwydiannol Gorslas | 1.59 | 0.28 | 1.31 | 0.06 | 0.09 | 46 | W/36179 | | 0.3 |
| Stad Ddiwydiannol Capel Hendre | 19.87 | 3.9 | 15.97 | 0.01 | 0.42 | 89 | E/30404; E/33556; E/34847; E/40507 (0.21ha) | | 0.93 |
| Parc Hendre | 14.10 | 4.03 | 10.07 | 0 | 0 | 100 | E/37602; PL/03226 | | 0.08 |
| Gwaith Drfifft Lyndsey | 1.22 | 0.10 | 1.12 | 0 | 0 | 100 | PL/04610 (0.02ha) | | 0.02 |
| Parc Amanwy | 6.57 | 1.48 | 5.09 | 0 | 0.12 | 92 | E/37312 | | 0.07 |
| Heo Ffowndri | 3.95 | 0.96 | 2.99 | 0 | 0.43 | 56 | | | |
| Gweithdai Betws Parc | 1.32 | 0.23 | 1.09 | 0.01 | 0 | 95 | E/40089 | | 0.014 |
| Heol Dyffryn | 4.21 | 1.73 | 2.48 | 0.01 | 1.03 | 39 | | | |
| Pantyffynnon | 2.07 | 0.34 | 1.73 | 0 | 0 | 100 | | | |
| Heol Pentwyn | 3.93 | 1.97 | 1.96 | 0 | 0.1 | 95 | | | |
| Hen Waith Glo'r Betws | 5.69 | 0.38 | 5.31 | 0 | 0.17 | 56 | | | |
| Tir I'r gogledd Penybanc | 3.66 | 0.61 | 3.05 | 0 | 0.08 | 86 | | | |
| Heol Ddu, Tycroes | 5.06 | 5.06 | 0.00 | 4 | 0 | 28 | | | |
| Stad Ddiwydiannol Cilyrychen / Stad Ddiwydiannol Pantyrhodyn | 15.78 | 6.03 | 9.75 | 0.06 | 0.31 | 94 | E/39760 | | 0.064 |
| Cyfanswm (presennol) | 118.77 | 33.57 | 85.20 | 4.15 | 3.32 | 78 | | | 3.318 |
| Dwyrain Cross Hands PrC3/E1 | 8.31 | | | | | | S/28449 | 8.7 | |
| Par Bwyd Gorllewin Cross Hands PrC3/E2 | 5.647 | | | | | | | | |
| Parc Busnes Cross Hands PrC3/E3 | 4.76 | | | | | | | | |
| Stad Ddiwydiannol Capel Hendre PrC3/E6 | 0.538 | | | | | | E/27773 | 0.44 | |
| Parc Hendre PrC3/E7 | 8.112 | | | | | | E/37602 | 0.73 | |
| Stad Ddiwydiannol Parc Hendre PrC3/E7 | 0.751 | | | | | | | | |
| Cyfanswm (arfaethedig) | 28.12 | | | | | | | 9.87 | |

| Enw'r safle | Cyfanswm Arwynebedd y Safle (Ha) 2023 | Adeiladau / tir caeedig, mewn defnydd (Ha) | Seilwaith, tirweddu a thir anodd ei ddatblygu (Ha) | Adeiladau / tir caeedig gwag neu ddim mewn defnydd (Ha)) | Adeiladau / tir caeedig ddim mewn defnydd cyflogaeth Dosbarth B (Ha) | Cyfran o Ddosbarth Defnydd (B1, B2, B8) (%) | Cyf. caniatâd cynllunio (wrth baratoi'r CDLl neu ers mabwysiadu'r CDLl) | Maint yr ardal sy'n cynnwys caniatâd cynllunio (Ha) yn ystod cyfnod y cynllun (dyraniadau) | Maint yr ardal sy'n cynnwys caniatâd cynllunio (Ha) yn ystod cyfnod y cynllun (dyraniadau) (safleoedd presennol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Canolfannau Gwasanaethau - Haen 2 | | | | | | | | | |
| **Burry Port SeC4** | | | | | | | | | |
| Parson's Pickles | 2.81 | 0.32 | 2.49 | 0 | 0 | 100 | | | |
| Stad Ddiwydiannol Silver Terrace | 1.00 | 0.32 | 0.68 | 0 | 0.09 | 71 | | | |
| Stad Ddiwydiannol Burry Port | 0.81 | 0.23 | 0.58 | 0.07 | 0 | 66 | | | |
| Llanelli Sand | 2.97 | 0 | 2.97 | 0 | 0 | 100 | | | |
| Dyfaty | 2.20 | 0.34 | 1.86 | 0.01 | 0 | 97 | | | |
| Stad Ddiwydiannol Pembrey | 1.71 | 0.77 | 0.94 | 0 | 0.06 | 92 | | | |
| Cyfanswm (presennol) | 11.50 | 1.98 | 9.52 | 0.08 | 0.15 | 88 | | | |
| Dyfaty SeC4/E1 | 3.036 | | | | | | LL/02604 | 3.28 | |
| Cyfanswm (arfaethedig) | 3.036 | | | | | | | 3.28 | |
| **Llandeilo SeC16** | | | | | | | | | |
| Stad Ddiwydiannol Beechwood | 2.60 | 0.30 | 2.30 | 0 | 0.21 | 30 | E/33880; E/34801; E/36028 | | 0.19 |
| Heol yr Orsaf | 2.02 | 0.36 | 1.66 | 0 | 0.24 | 33 | E/34448 | | 0.07 |
| Mart Ffair-fach | 1.08 | 0.22 | 0.86 | 0 | 0.22 | 0 | | | |
| Cyfanswm (presennol) | 5.71 | 0.88 | 4.83 | 0 | 0.67 | 24 | | | 0.26 |
| Stad Ddiwydiannol Beechwood SeC16/E1 | 0.289 | | | | | | E/33059 | 0.25 | |
| Beechwood SeC16/MU1 | 0.755 | | | | | | | | |
| Hen Neuadd y Farchnad, Llandeilo SeC16/E2 | 0.2 | | | | | | | 0.2 | |
| Cyfanswm (arfaethedig) | 1.244 | | | | | | | 0.45 | |
| **Llandovery SeC15** | | | | | | | | | |
| Church Bank a Hen Felin Lifio | 7.83 | 2.41 | 5.42 | 0.1 | 1 | 55 | | | |
| Depo i'r De-orll o Ysgol Pantycelyn | 0.99 | 0.37 | 0.62 | 0.03 | 0 | 91 | | | |
| Cyfanswm (presennol) | 8.82 | 2.78 | 6.04 | 0.13 | 1 | 59 | | | |
| **Castell-newydd Emlyn SeC12** | | | | | | | | | |
| Heol yr Orsaf | 1.46 | 0.11 | 1.35 | 0 | 0 | 100 | | | |
| Cyflenwr Adeiladwyr/Iard Goed | 0.72 | 0.25 | 0.47 | 0 | 0.08 | 66 | | | |
| Aberarad | 3.37 | 0.73 | 2.64 | 0 | 0 | 100 | W/33814 | | 0.01 |
| Cyfanswm (presennol) | 5.55 | 1.09 | 4.46 | 0 | 0.08 | 93 | | | 0.01 |
| **Sanclêr SeC18** | | | | | | | | | |
| Iard yr Orsaf | 1.03 | 0.45 | 0.58 | 0 | 0.12 | 73 | W/32941; W/33637; W/36134 | | 0.81 |
| Heol yr Orsaf | 2.40 | 0.78 | 1.62 | 0 | 0.27 | 65 | W/38617; W/38847 | | 0.55 |
| Wembley Place | 0.74 | 0.33 | 0.41 | 0 | 0.07 | 80 | | | |
| Parc Busnes Sanclêr | 0.74 | 0.16 | 0.58 | 0 | 0.06 | 65 | | | |
| Tir ger yr A40 | 2.46 | 1.32 | 1.14 | 0 | 0.48 | 63 | W/20735; W/32747; W/34779 | | 1.16 |
| Cyfanswm (presennol) | 7.37 | 3.04 | 4.33 | 0 | 1 | 67 | | | 2.54 |
| Parc Busnes Sanclêr SeC18/E1 | 0.421 | | | | | | | | |
| Cyfanswm (arfaethedig) | 0.421 | | | | | | | | |

| Enw'r safle | Cyfanswm Arwynebedd y Safle (Ha) 2023 | Adeiladau / tir caeedig, mewn defnydd (Ha) | Seilwaith, tirweddu a thir anodd ei ddatblygu (Ha) | Adeiladau / tir caeedig gwag neu ddim mewn defnydd (Ha)) | Adeiladau / tir caeedig ddim mewn defnydd cyflogaeth Dosbarth B (Ha) | Cyfran o Ddosbarth Defnydd (B1, B2, B8) (%) | Cyf. caniatâd cynllunio (wrth baratoi'r CDLl neu ers mabwysiadu'r CDLl) | Maint yr ardal sy'n cynnwys caniatâd cynllunio (Ha) yn ystod cyfnod y cynllun (dyraniadau) | Maint yr ardal sy'n cynnwys caniatâd cynllunio (Ha) yn ystod cyfnod y cynllun (dyraniadau) (safleoedd presennol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Hendy-gwyn ar Daf SeC19** | | | | | | | | | |
| West Street (Gogledd) | 0.62 | 0.22 | 0.40 | 0 | 0.1 | 55 | W/24918; W/38418 | | 0.27 |
| Gorllewin Heol yr Orsaf (Iard Adeiladwr) | 1.11 | 0.19 | 0.92 | 0 | 0.19 | 0 | | | |
| Dwyrain Heol yr Orsaf | 0.38 | 0.06 | 0.32 | 0 | 0.06 | 0 | W/32606 | | 0.35 |
| Dwyrain Heol yr Orsaf (Iard lo gynt) | 0.58 | 0.45 | 0.13 | 0 | 0 | 100 | | | |
| Trevaughan | 2.57 | 1.67 | 0.90 | 0 | 0.19 | 88 | | | |
| Stad Ddiwydiannol Hendy-gwyn ar Daf | 3.37 | 0.53 | 2.84 | 0 | 0.09 | 83 | W/30784 | | 0.57 |
| Hufenfa Hendy-gwyn | 3.35 | 1.15 | 2.20 | 0 | 0.19 | 83 | | | |
| Cyfanswm (presennol) | 11.99 | 4.27 | 7.72 | 0 | 0.82 | 81 | | | 1.19 |
| Stad Ddiwydiannol Hendy-gwyn ar Daf SeC19/E1 | 0.489 | | | | | | | | |
| Tir i'r de o'r Hen Hufenfa SeC19/E2 | 1.321 | | | | | | | | |
| Cyfanswm (arfaethedig) | 1.81 | | | | | | | | |
| **Canolfannau Gwasanaethau Lleol - Haen 3** | | | | | | | | | |
| **Cydweli SeC3** | | | | | | | | | |
| Stad Ddiwydiannol Heol Pen-bre | 2.43 | 0.88 | 1.55 | 0 | 0.16 | 82 | | | |
| Stad Ddiwydiannol Heol Pen-bre (Dwyrain) | 2.5 | 0.33 | 2.17 | 0 | 0.22 | 34 | S/33928 | | 0.35 |
| Cyfanswm (presennol) | 4.93 | 1.21 | 3.72 | 0 | 0.38 | 69 | | | 0.35 |
| **Ponthenri SeC1** | | | | | | | | | |
| Stad Ddiwydiannol Ponthenri (presennol) | 3.05 | 0.62 | 2.43 | 0 | 0.02 | 98 | S/39731 | | 0.14 |
| **Trimsaran SeC8** | | | | | | | | | |
| Depo bysiau | 0.91 | 0.07 | 0.84 | 0 | 0.07 | 0 | | | |
| **Pontyberem SeC11** | | | | | | | | | |
| Heol Coalbrook (presennol) | 0.91 | 0.26 | 0.65 | 0 | 0.15 | 40 | | | |
| **Hendy SeC6** | | | | | | | | | |
| Stad Ddiwydiannol (presennol) | 3.97 | 1.43 | 2.54 | 0 | 0.16 | 89 | | | |
| **Glanaman / Garnant SeC10** | | | | | | | | | |
| Tir yn Heol yr Orsaf | 1.79 | 0.24 | 1.55 | 0 | 0.19 | 23 | | | |
| Hen Iard Lo, Heol Dŵr | 2.79 | 0.16 | 2.63 | 0 | 0 | 100 | E/30381 | | 0.08 |
| Stad Ddiwydiannol Raven | 0.97 | 0.44 | 0.53 | 0 | 0.32 | 27 | | | |
| Gweithdai Glanaman | 1.23 | 0.17 | 1.06 | 0 | 0 | 100 | PL/00308 | | 0.57 |
| Cyfanswm (presennol) | 6.78 | 1.01 | 5.77 | 0 | 0.51 | 50 | | | 0.65 |
| **Brynaman SeC9** | | | | | | | | | |
| Stad Ddiwydiannol Brynaman, Heol Cwmgarw | 0.29 | 0.04 | 0.25 | 0 | 0.01 | 75 | | | |
| Hen Ffatri Remploy, Heol Cwmgarw | 0.81 | 0.18 | 0.63 | 0 | 0.183 | 0 | E/36279 | | 0.78 |
| Cyfanswm (presennol) | 1.10 | 0.22 | 0.88 | 0 | 0.193 | 12 | | | 0.78 |

| Enw'r safle | Cyfanswm Arwynebedd y Safle (Ha) 2023 | Adeiladau / tir caeedig, mewn defnydd (Ha) | Seilwaith, tirweddu a thir anodd ei ddatblygu (Ha) | Adeiladau / tir caeedig gwag neu ddim mewn defnydd (Ha)) | Adeiladau / tir caeedig ddim mewn defnydd cyflogaeth Dosbarth B (Ha) | Cyfran o Ddosbarth Defnydd (B1, B2, B8) (%) | Cyf. caniatâd cynllunio (wrth baratoi'r CDLl neu ers mabwysiadu'r CDLl) | Maint yr ardal sy'n cynnwys caniatâd cynllunio (Ha) yn ystod cyfnod y cynllun (dyraniadau) | Maint yr ardal sy'n cynnwys caniatâd cynllunio (Ha) yn ystod cyfnod y cynllun (dyraniadau) (safleoedd presennol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Llangadog SeC17** | | | | | | | | | |
| Hen Hufenfa | 4.15 | 1.13 | 3.02 | 0 | 0 | 100 | E/39801; PL/03675 (0.12ha) | | 0.31 |
| Heol yr Orsaf (Gogledd) | 1.21 | 0.39 | 0.82 | 0 | 0 | 100 | | | |
| Heol yr Orsaf | 3.33 | 1.51 | 1.82 | 0 | 0.23 | 84 | E/32491 | | 1.6 |
| Cyfanswm (presennol) | 8.70 | 3.03 | 5.67 | 0 | 0.23 | 92 | | | 1.91 |
| **Llanybydder SeC13** | | | | | | | | | |
| Dunbia (Lladd-dy) | 3.12 | 0.85 | 2.27 | 0 | 0 | 100 | W/40241 | | 0.09 |
| Ty Mawr | 0.40 | 0.12 | 0.28 | 0 | 0 | 100 | | | |
| Cyfanswm (presennol) | 3.52 | 0.97 | 2.55 | 0 | 0 | 100 | | | 0.09 |
| Hen Ffowndri SeC13/E1 (arfeathedig) | 0.405 | | | | | | | 0.4 | |
| **Cymunedau Cynaliadwy - Haen 4** | | | | | | | | | |
| **Pencader SeC14** | | | | | | | | | |
| Heol yr Orsaf | 1.2 | 0.07 | 1.13 | 0.02 | 0 | 74 | | | |
| Clos cader | 0.85 | 0.21 | 0.64 | 0 | 0 | 100 | | | |
| Cyfanswm (presennol) | 2.05 | 0.28 | 1.77 | 0.02 | 0.00 | 93 | | | |
| **New Inn SuV43** | | | | | | | | | |
| Iard Sgrap a Gwaith Peirianneg (presennol) | 0.40 | 0.05 | 0.35 | 0 | 0 | 100 | | | |
| Ger Gwastod Abbot | 1.40 | 0.26 | 1.14 | 0 | 0.26 | 0 | | | |
| Cyfanswm (presennol) | 1.80 | 0.31 | 1.49 | 0 | 0.26 | 16 | | | |
| **Llanfihangel - ar- arth SuV39** | | | | | | | | | |
| Depos a Ffatri | 1.43 | 0.19 | 1.24 | 0 | 0.13 | 31 | | | |
| **Pont-tyweli SuV41** | | | | | | | | | |
| Heol yr Orsaf | 1.38 | 0.24 | 1.14 | 0.13 | 0.04 | 27 | | | |
| Heol Lewis | 1.14 | 0.14 | 1 | 0.08 | 0.01 | 36 | | | |
| Stad ger y B4624 | 0.67 | 0.14 | 0.53 | 0 | 0.02 | 88 | | | |
| Cyfanswm (presennol) | 3.19 | 0.52 | 2.67 | 0.21 | 0.07 | 46 | | | |
| **Cwmgwili SuV28** | | | | | | | | | |
| Stad Ddiwydiannol Heathfield (presennol) | 2.66 | 0.26 | 2.4 | 0 | 0.03 | 90 | | | |
| **Cyfanswm Terfynol (safleoedd presennol)** | **457.11** | **119.14** | **337.97** | **5.87** | **19.43** | **79** | | | **13.52** |
| **Cyfanswm Terfynol (safleoedd arfaethedig yn y CDLl Diwygiedig Adneuo)** | **71.21** | | | | | | | **18.08** | |

# Atodiad 2 Cymhariaeth rhwng  safleoedd cyflogaeth presennol yn 2022 a 2023

**1.** Cyfanswm Arwynebedd y Safle ac Adeiladau / tir caeedig







Haen 3
9
8
7
6
5
4
3
2
1
0
Cydweli 2022
Cydweli 2023
Ponthenri 2022
Ponthenri 2023
Pontyberem 2022
Pontyberem 2023
Hendy 2022
Hendy 2023
Glanaman Garnant 2022
Glanaman Garnant 2023
Brynaman 2022
Brynaman 2023
Llangadog 2022
Llangadog 2023
Cyfanswm Arwynebedd y Safle (Ha)
Adeiladau / tir caeedig, mewn defnydd (Ha)


Haen 4
4.5
4
3.5
3
2.5
2
1.5
1
0.5
0
Llanybydder 2022
Llanybydder 2023
Pencader 2022
Pencader 2023
New Inn 2022
New Inn 2023
Llanfihangel -ar - Arth 2022
Llanfihangel -ar -Arth 2023
Pont-tyweli 2022
Pont-tyweli 2023
Cwmgwili 2022
Cwmgwili 2023
Cyfanswm Arwynebedd y Safle (Ha)
Adeiladau / tir caeedig, mewn defnydd (Ha)

2. Adeiladau / tir caeedig, mewn defnydd a cyfartaledd sy'n gwag neu ddim mewn defnydd







Haen 3
3.5
3
2.5
2
1.5
1
0.5
0
Cydweli 2022
Cydweli 2023
Ponthenri 2022
Ponthenri 2023
Pontyberem 2022
Pontyberem 2023
Hendy 2022
Hendy 2023
Glanaman Garnant 2022
Glanaman Garnant 2023
Brynaman 2022
Brynaman 2023
Llangadog 2022
Llangadog 2023
Adeiladau / tir caeedig, mewn defnydd (Ha)
Adeiladau / tir caeedig gwag neu ddim mewn defnydd (Ha)


Haen 4
1.2
1
0.8
0.6
0.4
0.2
0
Llanybydder 2022
Llanybydder 2023
Pencader 2022
Pencader 2023
New Inn 2022
New Inn 2023
Llanfihangel -ar - Arth 2022
Llanfihangel -ar -Arth 2023
Pont-tyweli 2022
Pont-tyweli 2023
Cwmgwili 2022
Cwmgwili 2023
Adeiladau / tir caeedig, mewn defnydd (Ha)
Adeiladau / tir caeedig gwag neu ddim mewn defnydd (Ha)

3. Cyfran o Ddosbarth Defnydd B1, B2, B8 (%)







Haen 3
100
90
80
70
60
50
40
30
20
10
0
Cydweli 2022
Cydweli 2023
Ponthenri 2022
Ponthenri 2023
Pontyberem 2022
Pontyberem 2023
Hendy 2022
Hendy 2023
Glanaman Garnant 2022
Glanaman Garnant 2023
Brynaman 2022
Brynaman 2023
Llangadog 2022
Llangadog 2023
Cyfran o Ddosbarth Defnydd (B1, B2, B8) (%)


Haen 4
100
90
80
70
60
50
40
30
20
10
0
Llanybydder 2022
Llanybydder 2023
Pencader 2022
Pencader 2023
New Inn 2022
New Inn 2023
Llanfihangel -ar - Arth 2022
Llanfihangel -ar -Arth 2023
Pont-tyweli 2022
Pont-tyweli 2023
Cwmgwili 2022
Cwmgwili 2023
Cyfran o Ddosbarth Defnydd (B1, B2, B8) (%)